Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

DATGANIAD I'R WASG – PRESS RELEASE

GWEITHGAREDDAU SUL Y COFIO YNG NGHAERFYRDDIN

Bydd gweithgareddau Sul y Cofio yn wahanol yng Nghaerfyrddin ar ddydd Sul yr 8fed o Dachwedd oherwydd cyfyngiadau Covid 19.

Ni fydd gorymdaith o ganol y dref i Eglwys San Pedr, a bydd y seremoni o osod torchau eleni yn cynnwys ychydig iawn o bobl.

Bydd Maer Caerfyrddin, y Cyng. Gareth John yn cerdded o Neuadd Ddinesig San Pedr i Gofeb Rhyfel y Sir yn Stryd y Prior ac yn gosod torch am 11y.b. ar ran pobl Caerfyrddin, i goffáu'r rhai sydd wedi colli eu bywydau. Bydd yn cydymffurfio â chyhoeddiad Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, ynglŷn â'r cyfnod cloi o ddwy wythnos.

Dywedodd y Maer: "Oherwydd y sefyllfa barhaus gyda Cofid 19 bydd y seremoni ddinesig draddodiadol i nodi Dydd y Cofio yn newid eleni, ond rwyf wedi ymrwymo i gynnal traddodiadau'r dref, yn enwedig ar gyfer yr achlysur pwysig hyn yn y calendr dinesig".

"Er mwyn parchu gofynion cyfyngiadau Cofid 19 ac i helpu atal y feirws rhag lledaenu, mae hefyd yn hanfodol nad yw aelodau'r cyhoedd yn ymgynnull ar y bore dydd Sul gan y byddai hyn yn wrthgynhyrchiol yn ystod yr adeg sensitif a heriol hwn i iechyd y cyhoedd".

Alun J Harries
Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin – Clerk, Carmarthen Town Council
01267 235199

20th October 2020